CYFARFOD PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL - CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

13:00 –15:45 11 Mai 2023

MS Teams

Yn Bresennol (Aelodau)	Blaenl ythren nau	Teitl	Sefydliad
Rowan Gardner	RG	Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
David Selway	DS	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Yn bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Julie Ash	JA	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Rachel Gemine	RGE	Pennaeth Ymchwil ac Arloesi	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Rhidian Hurle	RH	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Darren Lloyd	DL	Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Sam Lloyd	SL	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Dave Parsons	DP	Rheolwr Cod WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru) (eitem 3.8 yn unig)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Keith Reeves	KR	Rheolwr Tîm Rheoli Gwasanaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Carys Richards	CR	Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Marcus Sandberg	MS	Uwch Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth (eitem 3.8 yn unig)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a Phrif Swyddog Masnachol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
David Sheard	DSH	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid Gwasanaethau	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Helen Thomas	HT	Prif Swyddog Gweithredol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Andy Warburton	AW	Pennaeth Rhaglenni Gwybodaeth a Chofnodion Iechyd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
Marilyn Bryan-Jones	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Ifan Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Paul Evans	Pennaeth Ansawdd a Rheoleiddio	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Carwyn Lloyd-Jones	Cyfarwyddwr TGCh	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Rachael Powell	Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Acronymau			
SHA	Awdurdod Iechyd Arbennig	DG&S	Llywodraethu a Diogelwch Digidol
NDR	Adnoddau Data Cenedlaethol	WED	Cyfarwyddwyr Gweithredol Wythnosol
R&I	Ymchwil ac Arloesi	IP	Eiddo deallusol
DSPP	Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd	WEDS	System Adran Argyfwng Cymru
WICIS	System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru	WNCR	Cofnod Gofal Nyrsio Cymru
SAIL	Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw	LINC	Rhwydwaith Gwybodaeth Labordy Cymru
DHCW	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	IM	Aelod Annibynnol
BAU	Busnes fel Arfer	GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
MB	Y Bwrdd Rheoli	IRLG	Grŵp Adolygu Digwyddiad a Dysgu
Templedi	Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru	LlC	Llywodraeth Cymru
SRO	Uwch Swyddog Cyfrifol	SYG	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu i'w Gofnodi
RHAN 1 — MATERION RHAGARWEINIOL			
1.1	**Croeso a Chyflwyniadau** Croesawodd Rowan Gardner, Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (RG) bawb i'r sesiwn gyhoeddus, gan gynnwys Helen Thomas, Prif Swyddog Gweithredol, DHCW (HT) a oedd yn arsylwi'r cyfarfod.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	**Ymddiheuriadau am Absenoldeb** Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:	Nodwyd	Dim i'w nodi

	• Marilyn Bryan-Jones, Aelod Annibynnol • Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth • Paul Evans, Pennaeth Ansawdd a Rheoleiddio • Carwyn Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr TGCh • Rachael Powell, Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil		
1.3	**Datganiadau o Fuddiannau** Nodwyd bod RG yn gyd-sylfaenydd Precision Life, sy'n ymdrin â gwybodaeth am gleifion at ddibenion eilaidd, megis ymchwil, a chytunwyd, os ar unrhyw adeg pan nad yw'n briodol i RG fod yn Gadeirydd, y byddai David Selway, Aelod Annibynnol, Is-Gadeirydd (DS), yn cymryd yr awenau i reoli unrhyw wrthdaro posibl.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.4	**Materion sy'n codi** Ni chodwyd unrhyw faterion.	Nodwyd	Dim i'w nodi
	RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO Dosbarthwyd eitemau ar yr agenda gydsynio cyn y cyfarfod a nodwyd nad oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn gan y Cadeirydd ymlaen llaw.		
2.1	**Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf** • Cyhoeddus • Preifat - crynodeb **Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:** GYMERADWYO Cofnodion y cyfarfod diwethaf ym mis Chwefror 2023.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.2	**Blaengynllun Gwaith** **Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:** NODI'R Blaengynllun Gwaith.	Nodwyd	Dim i'w nodi
	RHAN 3 - PRIF AGENDA		
3.1	**Cofnod Gweithredu** O dan arweiniad Chris Darling (CD), Ysgrifennydd y Bwrdd, a nododd fod 2 gam gweithredu agored yn y parth cyhoeddus ar hyn o bryd, y ddau ohonynt ar y gweill gyda diweddariadau wedi'u cynnwys yn y cofnod ac wedi'u nodi isod:	Trafodwyd	Dim i'w nodi

	• 2022-12-05-A02 – “Addewid data – DL i roi'r wybodaeth ddiweddaraf, y datrysiad posibl, a'r amserlenni i'w hamlinellu yn y Pwyllgor nesaf.” 03.05.2023 Gellir cau diweddariad ar agenda mis Mai. 02.02.2023 DHCW 0264 Addewid Data – Diweddarodd DL y pwyllgor, gan nodi bod y gwaith yn cynnwys peth perchnogaeth gan y gwasanaeth, fodd bynnag, trefnwyd cyfarfod gyda LlC wedi'i amserlennu i ddeall pwy sy'n gyfrifol am gyflawni rhai o'r elfennau dan sylw. Byddai hyn yn caniatáu i Iechyd a Gofal Digidol Cymru edrych ar adnoddau i gyflawni'r ymgyrch. 14.07.2022 DL yn aros am adborth o swydd ar secondiad yn LlC cyn y gellir sefydlu cynllun.” Byddai Darren Lloyd, Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion (DL) yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf yn eitem 3.9 Cyflawni’r Addewid Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. • 2023-02-02-A01 “Diweddariad ar Drosolwg y Rhaglen Ddigidol: David Sheard i ymchwilio i’r amserlen o ran sut a phryd y bydd buddion o’r Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) yn cael eu hadrodd fel mecanwaith i fesur yr effaith ehangach ar y rhaglenni wrth i DHCW symud i ddull sy’n canolbwyntio’n fwy ar gynnyrch. 03.05.2023 Mae gan dîm NDR sesiwn archwiliad dwfn ar 4 Mai gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ynghylch cyflenwi, sydd ei angen i alluogi gwireddu buddion NDR.” Cyflwynir diweddariad ar y rhaglen NDR, gan gynnwys amserlen bosibl ar gyfer y Pwyllgor ym mis Awst. **Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:** DRAFOD y Cofnod Gweithredu.		
3.2	**Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** Nododd CD fod 31 o risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar hyn o bryd, yr oedd 20 ohonynt i'w hystyried gan y Pwyllgor hwn, yr ystyriwyd bod 10 ohonynt yn rhai preifat ac y byddent yn cael eu trafod yn y sesiwn breifat gyda'r 10 arall yn destun trafodaeth yn y sesiwn hon. Nodwyd y newidiadau	Trafodwyd	Dim i’w nodi

canlynol i risgiau cyhoeddus a neilltuwyd i'r Pwyllgor hwn ers y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn:

2 NEWYDD

- DHCW0306 Gwasanaeth Newid – Olyniaeth
- DHCW0307 Gwasanaeth Newid - Datblygiad ymatebol

1 NEWID YN SGÔR

- DHCW0299 Capasiti cyflenwyr i gefnogi gweithgareddau parodrwydd y Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig
  Cynnydd yn y sgôr oherwydd y tebygolrwydd ac effaith yn cynyddu

TYNNWYD 1

- DHCW0228 Parthau Nam
  Lliniaru wedi'i gwblhau - mae'r risg hon bellach wedi'i chau

Nodwyd sylwadau pellach fel a ganlyn:

- Yn dilyn archwiliad mewnol, rhannwyd y risg Gwasanaeth Newid gwreiddiol yn 3 risg ar wahân
- Roedd Risg DHCW0299 fel y nodir uchod wedi cynyddu mewn sgôr ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor ym mis Chwefror ond roedd yn debygol o ostwng eto yn fuan ar ôl cyfarfod Bwrdd y Rhaglen i adolygu'r risg
- Holodd David Selway, Aelod Annibynnol (DS) ynghylch cymeradwyaeth adran 255, gyda CD yn cadarnhau bod mesurau lliniaru ynghylch adnoddau yn GIG Lloegr wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd a dyna oedd y rheswm dros y gostyngiad yn y sgôr risg.
- Byddai diweddariadau pellach yn cael eu derbyn ar rai risgiau a gwmpesir yn ystod eitemau ar yr agenda.

Adroddiad Archwiliad Dwfn ar gyfer risg DHCW0296 Alergeddau ac Adweithiau Niweidiol

Ar y cam hwn o'r cyfarfod cymerodd DS yr awenau fel Cadeirydd oherwydd gwrthdaro buddiannau posibl RG a ddatganwyd ar ddechrau'r cyfarfod.

Nododd DL y risg i ddiogelwch cleifion a'r sicrwydd sydd ei angen o ran dull safonol o ymdrin â pheryglon tebygol ar ddylunio/caffael systemau yn y GIG. O ran y risg data, byddai'n dod o un ffynhonnell o wirionedd o ran cofnod defnydd sengl gyda'r angen i allu lliniaru'r cyfle o gamddehongli neu

	gamddefnydd o ddata. Tynnodd Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (RH) sylw at y nifer o ffyrdd y mae'r risg yn cael ei lliniaru; cymryd cofnodion i PAS, defnyddio blwch coch o fewn baner y claf, defnyddio SNOMED i gofnodi'r data, deall sut rydym yn diffinio alergeddau, pwysleisio cyfrifoldeb ar y cyd y rhai sy'n rhagnodi a rhannu meddyginiaeth. Awgrymodd DS y byddai'n fuddiol cynnwys amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith a argymhellir o'r archwiliad dwfn. Ychwanegodd DL y byddai gosod y safon data yn ffactor pwysig ar gyfer pan fydd unrhyw system newydd yn cael ei dylunio / ei chaffael neu pan fydd storfa arall o bosibl yn cael ei datblygu o ran cynnal y gallu i ryngweithredu ar draws systemau'r GIG. Nododd RG y cyfle i wella ansawdd gofal o ran gwella systemau o ran ffynhonnell ddata gyson er mwyn diogelu cleifion, gan bwysleisio gwerth uchel iechyd a gofal cleifion. **Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:** DRAFOD y Gofrestr Risg Gorfforaethol a THRAFOD yr adroddiad archwiliad dwfn ar gyfer risg DHCW0296 Alergeddau ac Adweithiau Niweidiol.		
3.3	**Adroddiad Blynyddol Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol** Wedi'i gyflwyno gan Keith Reeves, Rheolwr Tîm Rheoli Gwasanaeth (KR), a Dirprwy Gadeirydd Grŵp Adolygu Digwyddiad a Dysgu, nododd fod y grŵp yn ei ail flwyddyn o fodolaeth, gyda'r cynllun presennol ar gyfer dull 3-cham, blwyddyn 1 sefydlu'r grŵp ac egwyddorion ymarfer cyffredinol, blwyddyn 2 datblygu'r fframwaith adolygu a dysgu a blwyddyn 3 wrth symud ymlaen i ymgorffori'r diwylliant o ddysgu a gwella, ystyried nodau strategol a Dyletswydd Gonestrwydd ac ati. Cafwyd 9 Hysbysiad Rhybudd Cynnar a 2 gŵyn, yr oedd 1 ohonynt wedi'i thynnu'n ôl, ac ymchwiliwyd i bob un ohonynt a bodlonwyd yr amserlenni a ddefnyddiwyd o fewn y cyfnod. Roedd Fframwaith Ffactorau Cyfrannol Swydd Efrog wedi'i addasu i weddu i sefydliad digidol a chafodd ffactorau cyffredin eu rhannu'n barthau unigol a'u hadolygu'n ôl-weithredol o	Trafodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi

	flwyddyn 1, gan weithio'n benodol ar welliannau gydag arweinwyr penodedig, gyda'r adolygiadau'n cynhyrchu argymhellion wedi'u cofnodi fel camau gweithredu. Caiff gwelliant ei fesur yn erbyn themâu a chaiff ei lywio gan y fframwaith wrth symud ymlaen. Roedd 1 digwyddiad TG mawr ac mae 78% o reolwyr ar alwad wedi mynychu sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth. O ran y strwythur ar alwad mae'r grŵp yn gweithio ar fwy o ymgysylltu â'r tîm Cyfathrebu, gan edrych i gynyddu'r strwythur Arian o ran y Ddesg Wasanaeth a'r adnoddau cyffredinol gyda datganiadau diffiniedig i symleiddio'r broses. Bydd hyfforddiant ar alwad yn parhau gyda hyfforddiant ychwanegol yn canolbwyntio ar fwy o gymhwysedd megis rheoli digwyddiadau. Mae rheoli newid yn cael ei fonitro fel gweithgaredd parhaus oherwydd nad yw newidiadau'n cael eu cymhwyso'n briodol a arweiniodd at ailadrodd digwyddiadau. O ran ymddygiad y gweithlu, cwblhawyd adolygiad o werthoedd DHCW gydag arolwg staff yn amlygu meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt. Yn y dyfodol, mae'r grŵp yn bwriadu datblygu Blaengynllun Gwaith i roi mwy o ffocws a rhoi sicrwydd pellach i'r pwyllgor. Rhoddodd DL drosolwg o'r Ddyletswydd Gonestrwydd o ran y broses adolygu digwyddiadau a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2023. **Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:** DRAFOD yr Adroddiad Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol Blynyddol er SICRWYDD.		
3.4	**Adroddiadau Sicrwydd** I. Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth Cyflwynodd DL yr Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth gan nodi'r cynnydd bychan mewn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd wedi'u gweithredu. Cafwyd trafodaeth ar y fframwaith llywodraethu gwybodaeth cenedlaethol a'r diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau gyda DS yn cwestiynu pwy fyddai'n darparu cytundeb ffurfiol ar hyn. Sicrhaodd DL y pwyllgor fod sgyrsiau ar y gweill gyda LlC ynghylch a fyddai DHCW yn cael ei enwi mewn polisi fel un â rheolaeth gydnabyddedig.	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi

II. Adroddiad Sicrwydd Gwybodeg

Cyflwynodd RH yr Adroddiad Sicrwydd Gwybodeg yn absenoldeb Paul Evans, Pennaeth Ansawdd a Rheoleiddio (PE) gan dynnu sylw at y sicrwydd ynghylch y gwaith a gwblhawyd yn ystod y pandemig a chymeradwyaeth ôl-weithredol rhai elfennau o fewn DSPP a fydd yn cael ei gwblhau erbyn cyfarfod nesaf y pwyllgor yn Awst.

III. Adroddiad Sicrwydd Gwasanaethau Gwybodaeth

Cyflwynodd Andy Warburton, Pennaeth Rhaglenni Gwybodaeth a Chofnodion Iechyd (AW) Adroddiad Sicrwydd y Gwasanaethau Gwybodaeth gan nodi'r gwaith parhaus fel a ganlyn:

- datblygu ystadegau cyhoeddiadau
- oherwydd data gwerthfawr a ddarparwyd gan Reolwyr Gwasanaeth yn ystod y pandemig, mae gwybodaeth hanfodol wedi'i chynnwys fel categori
- o ganlyniad i adroddiad archwilio mae risg y Gwasanaeth Newid wedi'i rannu'n 3 risg ar wahân i'w lliniaru dros 3 adran; derbynnir statws presennol fel un sy'n goddef 2 risg ac ymgysylltu ag NDR i gael cynllun olyniaeth i symud y gwasanaethau drosodd.
- mae cyfle blynyddol i aeddfedu ein statws yn y bartneriaeth 5 mlynedd gyda SYG wedi'i gyflwyno a'i adolygu
- roedd y Fframwaith Power BI drafft wedi'i gyflwyno i WED, gyda gwaith pellach yn cael ei wneud cyn dychwelyd i'w gymeradwyo

Croesawodd DS y datblygiad ar risg y Gwasanaeth Newid ond cwestiynodd y derminoleg "ymateb i'r datblygiad gofynnol" o ran aros am yr NDR. Ymatebodd AW nad yw'r feddalwedd bresennol yn addas ar gyfer ceisiadau cymhleth, er enghraifft gan LlC i Brifysgol Abertawe mewn perthynas â chronfa ddata SAIL, sydd bellach wedi'i hamlinellu yn risg 2.

Gofynnodd RG a oedd unrhyw ymdeimlad o amserlen o ran aros am yr NDR a goddef y risgiau.
Nododd AW fod y gwasanaeth yn darparu gwytnwch ychwanegol yn lle'r olynydd, gyda gwasanaeth cadarn, y gellir ei adennill gyda gwaith llaw, ond ni fyddai hwn yn ateb cynaliadwy hirdymor. Ychwanegodd fod y tîm wrthi'n mynd ati i gaffael data trwy ddulliau eraill ar hyn o bryd sy'n lleihau'r risg.

	Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: NODI'R adroddiadau er SICRWYDD.		
3.5	**Adroddiad Sicrwydd Strategaeth Ymchwil ac Arloesi** Cyflwynodd RH yr eitem yn nodi bod y strategaeth Ymchwil ac Arloesi wedi'i chymeradwyo gan Fwrdd yr SHA fis Tachwedd diwethaf, ac mae'r adroddiad sicrwydd a'r diweddariad yn dod yn eitem reolaidd ar agenda'r pwyllgor wrth symud ymlaen. Yn absenoldeb Rachael Powell, Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil (RP) roedd wedi gwahodd Rachel Gemine, Pennaeth Ymchwil ac Arloesi (RGE) i gyflwyno'r eitem. Nododd RGE fod y tîm wrthi'n cwblhau drafft o'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar Ymchwil ac Arloesi, gyda'r strwythur llywodraethu wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr SHA ym mis Mawrth. Roeddent yn y broses o sefydlu Bwrdd Ymchwil ac Arloesi i adolygu prosiectau yn unigol a chwblhau Asesiadau Effaith, yn ogystal roedd y tîm yn bwriadu datblygu grŵp ymgysylltu ymchwil sefydliadol newydd. Er mwyn monitro prosiectau a chwrdd â safonau ansawdd roedd log prosiect yn cael ei ddatblygu ac roedd strwythur rheoli perfformiad yn cael ei roi ar waith yn unol â'r IMTP a gofynion cerrig milltir. Cafwyd trafodaeth ynghylch adnoddau a chapasiti i ysgogi gwerth o'r data a fydd ar gael o'r NDR a nododd RGE y gallai fod cyllid posibl gan LlC ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sydd ar y gweill, a'r gobaith oedd y byddai diweddariad yn cael ei rannu yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Awst. Dywedodd RG yr hoffai weld rhywfaint o waith ymchwil ar brosiectau partner allanol ac a fyddent yn cwrdd ag amserlenni ceisiadau am arian a pha mor aml y gallai hyn fod yn bresennol. **Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:** NODI'R Adroddiad Sicrwydd y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi er SICRWYDD.	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi
3.6	**Diweddariad ar Drosolwg y Rhaglen Ddigidol** **Amlygodd** David Sheard, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid Gwasanaeth (DSH) y canlynol i'w nodi yn erbyn y Rhaglenni Digidol, fel y'i cyflwynwyd i Fwrdd Rheoli DHCW ym mis Ebrill:	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi

	• WEDS; a oedd wedi bod yn goch ers tro, y prif newid ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor oedd bod adolygiad strategol o'r rhaglen wedi'i gwblhau a chyflwyniad wedi'i ddosbarthu i'r tîm Gweithredol, Bwrdd y Rhaglen a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ddiwedd mis Ebrill, gyda'r canlyniad argymelledig y dylid defnyddio fframwaith WEDS. Roedd yr argymhelliad hwn gyda'r cyflenwr ar hyn o bryd i adolygu a oeddent yn gallu lletya yn lleol yn hytrach nag yn genedlaethol. • WICIS; yn goch oherwydd modiwlau meddyginiaeth, megis therapi cyffuriau, ni chytunwyd ar ffordd ymlaen ar hyn o bryd, fodd bynnag, roedd yr arweinydd clinigol cenedlaethol newydd yn ailosod y strwythur llywodraethu a chlinigol ac yn gweithio drwy'r model cyllid. • LINC; parhau i fod yn goch gan na dderbyniwyd y cynllun diwygiedig gan y cyflenwr gan Fwrdd y Rhaglen. • CANSER; wedi'i israddio i ambr, fodd bynnag gyda materion gweithredol parhaus, roedd cam 2 ar gyfer gofal lliniarol wedi'i ymestyn, ailflaenoriaethu parhaus dan arweiniad DHCW a thîm prosiect Felindre, roedd posibilrwydd y gallai fynd yn goch. Ychwanegodd RH fod cyllid wedi'i sicrhau hyd at 31 Mawrth 2024. • WNCR; wedi newid yr SRO i Sian Thomas, DHCW, sef yr Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer Mamolaeth Ddigidol Cymru ar hyn o bryd, gyda'r cwmpas yn symud o oedolion i bediatrig. Holodd DS am gyfyngiadau adnoddau NDR, gyda HT yn cadarnhau bod hyn yn cael ei drafod yn fewnol fel blaenoriaeth. O ran WEDS, nododd RG fod canlyniadau cost ac effaith a ddaeth yn sgil ymgais DHCW i adeiladu'r bensaerniaeth letyol ac y gallai hynny arwain at gost anuniongyrchol i'r ganolfan ddata Nododd DS fod y cyflenwr yn gweithio ar gynnig masnachol i'w ystyried. Dywedodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithredoedd (SL) y byddai cynnal darpariaeth ganolog mewn amgylchedd cwmwl brodorol yn ateb delfrydol. Fodd bynnag roedd cynnal cwmwl ar gyfer systemau mawr yn anodd fesul achos ar hyn o bryd oherwydd pryderon ariannu CLG.		

	Nododd y Pwyllgor y drafodaeth ddefnyddiol ac awgrymodd y byddai achos yn tynnu sylw at y prif amcan i gefnogi gwell gofal yn fuddiol o ran mesur cost cyfyngiadau o bensaernïaeth etifeddiaeth wrth adeiladu achos busnes. Nodwyd bod rhaglen Drawsffiniol Powys yn wyrdd. **Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:** NODI'R Diweddariad ar Drosolwg y Rhaglen Ddigidol er SICRWYDD.		
3.7	**Diweddariad ar Bolisi Eiddo Deallusol** Rhoddodd Michelle Sell, Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a Phrif Swyddog Masnachol (MS), ddiweddariad byr ar y Polisi Eiddo Deallusol gan nodi bod grŵp llywio yn cael ei sefydlu i ddatblygu'r polisi dros yr wythnosau nesaf gyda'r bwriad o rannu hwn i'w adolygu yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Awst. Dywedodd RG fod angen bod yn gyson â gweddill y GIG a chroesawodd fewnbwn trydydd parti er mwyn datblygu cydweithrediadau ymchwil ac arloesi. Ychwanegwyd diweddariad pellach ar y cynnydd at y Blaengynllun Gwaith ar gyfer mis Awst i gadw golwg ar y datblygiadau. **Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:** NODI'R Diweddariad ar y Polisi Eiddo Deallusol.	Nodwyd	Dim i'w nodi
3.8	**Ymgynghoriad Cod Ymddygiad WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru).** Cyflwynodd DL ddiweddariad ar yr ymgynghoriad ar God Ymddygiad WASPI, gan nodi bod 50 o geisiadau gan wasanaethau cyhoeddus wedi'u cyflwyno yn ystod y broses ymgynghori, ond er mwyn symud ymlaen ymhellach, amlygwyd y byddai angen adnoddau i ymrwymo i'r gwaith o ddatblygu Cod Ymddygiad. Ychwanegodd DL fod Achos Busnes Llawn wedi'i gyflwyno i LlC ac y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y cynnydd. Nodwyd sefyllfa unigryw DHCW o ran gallu defnyddio WASPI drwy gydol y pandemig a bod yn arloesol o ran rhannu data yn y sector cyhoeddus.	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: NODI'R Ymgynghoriad Cod Ymddygiad WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru).		
3.9	**Cyflawni'r Addewid Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru** Rhoddodd DL ddiweddariad ar Gyflawni'r Addewid Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen ar DHCW, LlC a'r system iechyd a gofal ehangach yng Nghymru i redeg y rhaglen, gan sicrhau ei bod yn cael ei harwain yn glinigol ac yn canolbwyntio ar y buddion i ddinasyddion Cymru. Symudodd y drafodaeth at ddibyniaethau o'r Cyfathrebu ac yn ddiweddar cryfhawyd timau Ymgysylltu, gan nodi'r angen i ddechrau'r ymgyrch drwy bwysleisio'r rhannu data a ddigwyddodd yn ystod y pandemig a'r manteision a gafwyd o'r dull hwn. **Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:** NODI Cyflawni'r Addewid Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.	Nodwyd	Dim i'w nodi
3.10	**Adroddiad Rhannu Data yn ystod y coronafeirws** Cyflwynodd DL yr adroddiad Rhannu Data yn ystod y coronafeirws gydag SL yn cwestiynu a oedd unrhyw fanteision parhaus o'r gwaith a wnaed trwy gydol y pandemig. Eglurodd DL fod perthnasoedd yn cryfhau, a gwaith integredig wedi'i gwblhau, a oedd wedi creu hyder ychwanegol ar draws y system er mwyn manteisio ymhellach ar yr hyn a gyflawnwyd yn wreiddiol yn ystod y pandemig. Nodwyd bod heriau o'n blaenau o hyd, fodd bynnag gyda phenodiad y Prif Swyddog Digidol newydd, y gobaith oedd y byddai gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym yn y maes hwn. Tynnodd RH sylw at bwysigrwydd yr addewid data er mwyn diogelu'r wybodaeth a gesglir, yn ogystal â sut y byddai data'n cael eu defnyddio a'u rhannu er mwyn cael gwell profiad i gleifion ar draws y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru. **Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:** NODI'R Adroddiad Rhannu Data yn ystod y coronafeirws.	Nodwyd	Dim i'w nodi

RHAN 4 - MATERION I GLOI			
4.1	**Unrhyw Faterion Brys Eraill** Nid oedd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi.	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.2	**Eitemau ar gyfer Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd i'r Bwrdd** Nodwyd yr eitemau i'w cynnwys yn Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd ar gyfer Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Mai fel; • y gwaith da gan y Grŵp Adolygu Digwyddiad a Dysgu fel yr adroddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol; • nodwyd bod yr holl adroddiadau Sicrwydd yn gyson dda o ran adrodd, gan gynnwys yr adroddiad sicrwydd ymchwil ac arloesi cyntaf; • y cynnydd tuag at ddatblygu polisi eiddo deallusol gyda'r pwyllgor yn cadw golwg ar gynnydd wrth symud ymlaen; • WASPI a'r manteision strategol o symud tuag at God Ymddygiad, y buddion a gyflawnwyd yn ystod y pandemig, a'r gwaith parhaus tuag at lwybr i'r eitemau hyn symud ymlaen, gan fwydo i mewn i Gymru iachach; • roedd risg y Gwasanaeth Newid wedi'i rannu'n 3 risg er mwyn lliniaru gydag ychydig mwy o risgiau wedi'u hychwanegu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Fodd bynnag rhoddwyd sicrwydd i'r pwyllgor ynghylch risg DHCW0296 Alergeddau ac Adweithiau Niweidiol oherwydd y sesiwn archwiliad dwfn a ddarparwyd.	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.3	**Dyddiad y cyfarfod nesaf** Cadarnhawyd dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ar 3 Awst am 2023 am 1.00pm.	Nodwyd	Dim i'w nodi